Gofal Plant

Os rydych yn mwynhau gweithio gyda phlant, gall prentisiaeth mewn gofal plant fod yn yrfa berffaith i chi!

Mae angen i bobl sy'n astudio tuag at y cymhwyster hwn fod yn gweithio mewn lleoliadau gofal plant a reoleiddir gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a/neu wasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed.

Bydd Prentisiaid yn mynd i weithdai ac yn dysgu'r wybodaeth greiddiol yn ogystal â chael eu hasesu yn y gweithle gan ein timau sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Bydd angen i ddysgwyr yn y diwydiant hwn fod â llawer o egni, creadigrwydd a gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm.

Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol fel cymhorthydd mewn amgylchedd gofal plant	16 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a rhyddhau o'r gwaith
Lefel 3 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol mewn amgylchedd gofal plant mewn swydd goruchwyliaeth	18 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a rhyddhau o'r gwaith
Lefel 4 mewn Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol mewn amgylchedd gofal plant mewn swydd goruchwyliaeth uwch	24 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a Glannau Dyfrdwy ac Iâl
Lefel 5 mewn Arwain a Rheoli mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol	24 mis	Asesiad yn y gwaith, presenoldeb mewn gweithdai, cyflwyno ar-lein ac asesiadau coleg	Yn y gweithle a Glannau Dyfrdwy ac Iâl

Ystadegau/disgwyliadau cyflog y diwydiant

Mae'r galw yn y dyfodol am Gynorthwywyr Meithrin a swyddi cysylltiedig yn uchel o gymharu â swyddi eraill yng Nghymru

(EMSI, 2022)

Awgrym gorau

Ceisiwch gysylltu â chwmnïau lleol yn uniongyrchol os ydych yn chwilio am brentisiaeth neu cadwch lygad am ddigwyddiadau recriwtio sydd wedi'u trefnu gan y Coleg os ydych yn fyfyriwr llawn amser.